ytafod

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS YR IAITH
RHIFYN 3.20 • HAF 2005 • £1

CYFLWYNO'R HEN DDEDDF IAITH I'R AMGUEDDFA GENEDLAETHOL...
DEDDF IAITH NEWYDD – DYMA'R CYFLE!

- DIGWYDDIADAU'R URDD 2005
- DECHRAU TAITH DEDDF EIDDO

Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 2005-2006

Swyddogion

Cadeirydd
Steffan Cravos – cadeirydd@cymdeithas.com

Is-Gadeirydd Cyfathrebu a Lobio
Hedd Gwynfor – hedd@cymdeithas.com

Is-Gadeirydd Gweinyddol
Lyndon Jones – lyndon@cymdeithas.com

Is-Gadeirydd Ymgyrchu
Heledd Gwyndaf – heledd@cymdeithas.com

Trysorydd
Danny Grehan – danny@cymdeithas.com

Codi Arian
Aled Elwyn Jones – aled.jones@cymdeithas.com

Aelodaeth
Osian Rhys – osian@cymdeithas.com

Mentrau Masnachol
Gwyn Sion Ifan – gwyn@cymdeithas.com

Y Tafod
Ifan Morgan Jones – ifan@cymdeithas.com

Gwefan a Dylunio
Iwan Standley – iwan@cymdeithas.com

Adloniant
Owain Schiavone – adloniant@cymdeithas.com

Ymgyrchoedd

Cymunedau Rhydd: Cadeirydd
Huw Lewis – huw@cymdeithas.com

Cymunedau Rhydd: Ymgyrchu
Menna Machreth – menna@cymdeithas.com

Cymunedau Rhydd: Cyfathrebu a Lobio
Dewi Snelson – dewi.snelson@cymdeithas.com

Cymunedau Rhydd: Polisi
Dafydd Tudur – dafydd.tudur@cymdeithas.com

Deddf Iaith: Ymgyrchu
Lowri Larsen – lowri@cymdeithas.com

Deddf Iaith: Cyfathrebu a Lobio
Lois Barrar – lois@cymdeithas.com

Deddf Iaith: Cyfathrebu a Lobio
Hywel Griffiths – hywel@cymdeithas.com

Deddf Iaith: Polisi
Sian Howys – sian@cymdeithas.com

Addysg: Cadeirydd
Ffred Ffransis – ffred@cymdeithas.com

Addysg: Ymgyrchu
Bethan Jenkins – bethan@cymdeithas.com

Addysg: Cyfathrebu a Lobio
Rhys Llwyd – rhys@cymdeithas.com

Addysg
Aled Davies – aled@cymdeithas.com

Gwreiddiwch yn y Gymuned: Cadeirydd
Rhodri Davies – rhodri@cymdeithas.com

Rhanbarthau

Morgannwg-Gwent: Cadeirydd
Robat ap Tomos – robat@cymdeithas.com

Morgannwg-Gwent: Ysgrifennydd
Branwen Brian – branwen@cymdeithas.com

Caerfyrddin-Penfro: Cadeirydd
Sioned Elin – sioned@cymdeithas.com

Caerfyrddin-Penfro: Ysgrifennydd
Catrin Howells – catrin.howells@cymdeithas.com

Ceredigion: Cadeirydd
Angharad Clwyd – angharad.clwyd@cymdeithas.com

Gwynedd-Môn: Cadeirydd
Angharad Tomos – angharad@cymdeithas.com

Clwyd: Cadeirydd
Dewi Jones – dewi@cymdeithas.com

Swyddogion Cyflogedig

Cenedlaethol
Dafydd Morgan Lewis – dafydd@cymdeithas.com

Caerfyrddin-Penfro
Angharad Clwyd – angharad.clwyd@cymdeithas.com

Caerfyrddin-Penfro
Heledd ap Gwynfor – heledd.ap.gwynfor@cymdeithas.com



ytafod

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS YR IAITH

CYFROL 3 – RHIFYN 20
(HAF 2005)
ARGRAFFWYD GAN
WASG MORGANNWG
DYLUNIO GAN IWAN STANDLEY, ÅNGEL
GOLYGYDD NIA WILLIAMS
LLUNIAU IWAN STANDLEY

Os oes gennych chi unrhyw straeon neu newyddion o'ch ardal chi, danfonwch nhw atom naill ai trwy'r cyfeiriad uchod, neu at **tafod@cymdeithas.com**. Am fanylion am ein prisiau hysbysebu, cysylltwch â'r brif swyddfa.

cymdeithas yr IAITH gymraeg

PRIF SWYDDFA
PEN ROC
RHODFA'R MÔR
ABERYSTWYTH
CEREDIGION
SY23 2AZ
FFÔN 01970 624501
FFACS 01970 627122
E-BOST SWYDDFA@CYMDEITHAS.COM
Y WE WWW.CYMDEITHAS.COM

O'R CADEIRYDD

WYT TI'N SIARAD CRAV?

Gair gan y Cadeirydd, **Steffan Cravos**

Ers i mi gael fy ethol yn Gadeirydd mae'r ddeufis diwethaf wedi hedfan heibio! Un o'r pethe cyntaf i wneud oedd ymweld ag Alun Pugh, Gweinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Gymraeg. Mi es i a chynrychiolwyr eraill y Gymdeithas i gyfarfod ag e er mwyn trafod Deddf Iaith Newydd. Roedd hyn yn dilyn ein fforwm llwyddiannus ar ddechrau mis Mawrth. Ni fynychodd ef na neb arall o'i adran yn Llywodraeth y Cynulliad y fforwm, ond roedd cynrychiolwyr o'r mentrau iaith a Meri Huws a Meirion Prys o Fwrdd yr Iaith yno. Yn ystod y fforwm, soniodd Meri nad oedd "angen trafod a oes angen deddf iaith newydd, ond yn hytrach beth fyddai ei gynnwys".

Erbyn 2007 bydd y llywodraeth wedi diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn ei hanfod, mae hyn yn gwneud Deddf Iaith 1993 yn ddibwrpas gan mai nod y ddeddf oedd sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn amlwg, felly, bydd yn rhaid cael deddf iaith newydd. I gymryd lle'r Bwrdd, bwriad Llywodraeth y Cynulliad ydi creu Dyfarnydd Iaith. Roedden ni yn awyddus felly i holi Alun Pugh beth fyddai rôl y person hwn a beth fyddai cynnwys y ddeddf iaith newydd hon. Wedi ei amgylchynu gan ei weision sifil, dywedodd wrthon ni nad oedd yn teimlo bod angen adolygu'r ddeddfwriaeth ac nad oedd chwaith yn meddwl bod angen i'r Dyfarnydd Iaith gael rhagor o bwerau. Roedd ei ymateb negyddol yn siom fawr i ni. Mae'n amlwg nad ydi safbwynt Bwrdd yr Iaith yn cyd-fynd â safbwynt y Cynulliad ar y mater hwn. Yn y cyfamser byddwn yn parhau i bwyso am ddeddf iaith newydd drwy rwydweithio gyda'r mudiadau hynny ddaeth i'r fforwm genedlaethol ar Ddeddf Iaith yn mis Mawrth. Byddwn hefyd yn parhau gyda'n hymgyrch o weithredu uniongyrchol hyd nes y bydd y gweinidog diwylliant yn newid ei feddwl.

Cyn ein cyfarfod gydag Alun Pugh bûm i ac aelodau o'r Gymdeithas draw i Amgueddfa Genedlaethol Cymru i drosglwyddo Deddf Iaith 1993 i'w gofal. Gweithred symbolaidd oedd hon i danlinellu'r neges a fyddai'n cael ei gyflwyno yn ddiweddarach yr un dydd i Alun Pugh – bod Deddf Iaith 1993 yn perthyn i'r gorffennol, a bod angen deddfwriaeth ieithyddol newydd i ateb anghenion y

Steffan Cravos, y cadeirydd newydd

Gymraeg yn yr unfed ganrif ar hugain.

Yn dilyn cyfarfod gydag Ofcom, y cwango sy'n gyfrifol am ddarlledu yng Nghymru ac am oruwchilio darpariaeth gorsafoedd radio, daeth yn hollol amlwg i ni nad oedd ganddynt unrhyw rym i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei ystyried yn rhan angenrheidiol o addewidion darlledu gorsafoedd radio. Cwpwl o wythnosau ar ôl cyfarfod ag Ofcom roeddwn i, Heledd Gwyndaf, Angharad Blythe, Llinos Dafydd a Gwenno Teifi o flaen 'ein gwell' yn Llys Ynadon Hwlffordd yn dilyn protest yn stiwdios Radio Carmarthenshire ym mis Gorffennaf 2004. Roedden ni'n wynebu cyhuddiad o ddifrod troseddol. Yn fy natganiad, galwais ar Ofcom i sicrhau bod Radio Carmarthenshire yn adlewyrchu realiti ieithyddol y bobl a'r gymuned y maent yn honni eu bod yn eu gwasanaethu, a hynny drwy ddarlledu 50% o'u darpariaeth yn y Gymraeg.

Mae Radio Carmarthenshire wedi torri ei haddunedau darlledu yn gyson ers ei sefydlu. Yn y cytundeb hwn, dywedwyd y byddai 30% o'r ddarpariaeth yn Gymraeg, ond yn dilyn monitro gan y Gymdeithas, canfuwyd mai dim ond cyfartaledd o 3% o Gymraeg oedd ar donfeddi'r orsaf yn wythnosol. Er bod aelodau o'r gymuned leol ac aelodau'r Gymdeithas wedi bod yn e-bostio a ffonio'r orsaf yn rheolaidd i gwyno am eu polisi iaith ddiffygiol, ymateb negyddol iawn a gafwyd gan Keri Jones, cyfarwyddwr yr orsaf. Dywedodd nad oedden nhw erioed wedi chwarae cerddoriaeth Gymraeg ac nad oedden nhw'n bwriadu gwneud hynny chwaith. Yn sgil hynny, penderfynwyd y byddai'n rhaid mynd â'r neges yn uniongyrchol at Radio Carmarthenshire.

Cafwyd ni'n euog o ddifrod troseddol a rhyddhawyd ni yn amodol am 12 mis gyda chostau llys o £50 ac iawndal o £150. Ar y ffordd adref gwrandawais ar Radio Carmarthenshire. Roedd pob cân yn Saesneg a'r unig Gymraeg a glywais mewn dros awr oedd un llinell mewn sting newyddion. Bydd yr ymgyrch hwn yn parhau nes y bydd gorsaf Radio Carmarthenshire yn adlewyrchu gwir realiti ieithyddol yr ardal. Bwriad Ofcom yw ail-ddechrau monitro tonfeddi'r orsaf, ond mewn gwirionedd ni all wneud llawer i reoleiddio na dirwyo gan mai sefydliad heb ddannedd ydyw.

Serch hynny mae Cymdeithas yr Iaith ar fin dechrau ar gyfnod hanfodol yn ei hanes. Gyda diddymiad Bwrdd yr Iaith, nawr yw ein cyfle i bwyso ar Lywodraeth y Cynulliad am Ddeddf Iaith newydd, gryfach fydd yn rhoi statws i'r Gymraeg a hawliau i siaradwyr Cymraeg. Bellach, mae cul y drws ar agor ac mae'n holl bwysig ein bod ni yn cael ein troed ynddo cyn iddo gau am ddeuddeg mlynedd arall. Nawr yw ein cyfle, felly dewch gyda ni ac fe allwn ni newid pethau.

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi condemnio polisi'r Eisteddfod Genedlaethol o godi £10 y noson i bobl ifanc aros ym maes pebyll yr Eisteddfod eleni, gan gymharu syniad y trefnwyr o gyfuno'r maes pebyll a Maes-B i sefydlu 'carchar agored' gyda'r bwriad o gaethiwo eisteddfodwyr ifanc ar dir yr Eisteddfod.

Bwriad yr Eisteddfod yw gorfodi unrhyw un sydd am aros yn y maes pebyll i dalu hefyd am fynediad i Maes-B; lleoliad y bar a'r gigs hwyr sydd wedi gwneud colledion ariannol mawr i'r Eisteddfod dros y blynyddoedd diwethaf.

Er bod Maes-B a'r maes pebyll wedi cyd-fyw ar yr un safle ers bron i ddegawd, yn y gorffennol mae pris mynediad ar wahân wedi bod i'r ddau le gydag eisteddfodwyr ifanc yn gallu gwersylla heb gael eu gorfodi i dalu pris mynediad i far Maes-B hefyd.

Pris gwersylla'r llynedd oedd £2.50 y noson. Golyga'r polisi newydd y bydd yn rhaid i bob gwersyllwr, beth bynnag fo'u hoed a'u diddordebau, dalu pedair gwaith yn fwy eleni er mwyn sybsideiddio nosweithiau drudfawr Maes-B. Mae hon yn weithred argyfwng gan yr

NEWYDDION

EISTEDDFOD ERYRI 2005
CARCHAR AGORED?

Eisteddfod yn wyneb y ffaith fod cymaint o bobl ifainc wedi bod yn dewis mynd i gigs Cymdeithas yr Iaith yn ystod wythnos yr Eisteddfod dros y blynyddoedd diwethaf.

Cred Steffan Cravos, cadeirydd y Gymdeithas, fod y polisi hwn yn ymgais ar ran y trefnwyr i gaethiwo'r Eisteddfodwyr ifanc mewn ghetto a'u cosbi'n ariannol am fynychu digwyddiadau gyda'r nos heblaw am rai swyddogol yr Eisteddfod.

"Rhan ganolog o hwyl a thraddodiad yr Eisteddfod yw bod eisteddfodwyr o bob oed yn dod i adnabod ardal newydd o Gymru bob blwyddyn, a bod ardal wahanol o Gymru yn elwa yn economaidd a chymdeithasol o bresenoldeb yr ŵyl gyda phob math o ddigwyddiadau yn cael eu trefnu ledled yr ardal," meddai.

"Eleni, mae'r trefnwyr am gaethiwo eisteddfodwyr ifanc yn y maes pebyll a'u gorfodi i dalu crocbris i fynychu digwyddiadau na fydd yn apelio at nifer fawr ohonynt. Mae fel gorfodi pawb sydd am aros yn y maes carafannau i dalu am docyn i gyngherddau nos y pafiliwn hefyd, pa un a ydynt hoffi beth sydd ymlaen yno neu beidio."

Yn ôl Ioan Thomas, cadeirydd pwyllgor apêl Caernarfon a rheolwr-gyfarwyddwr Cofi Roc, mae'r polisi yn newyddion drwg i'r bobl leol a fu'n codi arian tuag at gynnal yr Eisteddfod: "Mae tref Caernarfon ar ei phen ei hun wedi casglu dros £60,000 tuag at yr Eisteddfod eleni a'r gobaith mawr oedd byddai busnesau'r

"Mae Cymdeithas yr Iaith yn dal yn ffyddlon i ddelfryd wreiddiol yr Eisteddfod o gefnogi a chryfhau cymunedau lleol wrth symud o gwmpas Cymru"

dref yn elwa o bresenoldeb yr Eisteddfod. Mae unrhyw ymgais i gadw eisteddfodwyr rhag cefnogi busnesau lleol yma, a chymysgu â'r gymuned leol felly yn siom enbyd i'r trigolion a'r busnesau lleol a fuodd yn gweithio mor galed i sicrhau fod yr Eisteddfod yn dod i'r ardal ac sydd yn bwriadu trefnu digwyddiadau i gyd-fynd a'r ŵyl."

Mae Steffan Cravos yn ofni hefyd y gallai'r polisi hwn alltudio llawer o'r genhedlaeth newydd o eisteddfodwyr gan eu troi i ffwrdd o'r Eisteddfod yn gyfan gwbl. "Mae rhywbeth yn nawddoglyd iawn yn y ffordd mae trefnwyr yr Eisteddfod yn categoreiddio pobl ifanc ac yn ceisio penderfynu drostyn nhw beth maen nhw am ei wneud yn ystod yr wythnos. Mae gan Gymry ifanc heddiw ddiddordebau amrywiol iawn ac nid pawb sydd eisiau meddwi mewn ysgubor fawr yn ganol cae," meddai.

"Gyda'r ardal yn un ble mae llawer o bobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn byw beth bynnag, dwi'n meddwl bydd llawer sydd yn teithio i'r Eisteddfod yn dod i'r casgliad fod cysgu ar soffa ym Mangor Uchaf neu'r Felinheli yn well na thalu trwy'u trwynau i fynd i garchar agored yr Eisteddfod."

"Mae Cymdeithas yr Iaith yn dal yn ffyddlon i ddelfryd wreiddiol yr Eisteddfod o gefnogi a chryfhau cymunedau lleol wrth symud o gwmpas Cymru. Byddwn ni yn ôl ein harfer yn cydweithio gyda mentrau lleol i gynnal ein gigs eleni mewn canolfannau ym Mangor a Chaernarfon." ✆

Gigs Steddfod: tudalen 16 a 17

NEWYDDION

DEDDF EIDDO CHWIFIO BANER O FURIAU CASTELL CAERNARFON

Dringodd aelodau o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg i ben twr uchaf Castell Caernarfon ar ddydd Llun y Pasg, gan arddangos baner enfawr a oedd yn datgan "Deddf Eiddo – Tai i Bobl Leol".

Cyflawnwyd y weithred er mwyn tynnu sylw'r llu o bobl a oedd yn ymweld â Chaernarfon at ddifrifoldeb yr argyfwng tai sydd yn tanseilio cymunedau Cymraeg yr ardal.

"Mae'n hollbwysig fod Cymdeithas yr Iaith yn gwthio'r argyfwng tai i frig yr agenda wleidyddol, gan sicrhau bod y mater yn cael ei drafod," meddai Dafydd Tudur, un o'r protestwyr.

"Credwn y byddai sicrhau Deddf Eiddo i Gymru yn fodd i leddfu effeithiau'r argyfwng tai, gan y byddai mesur o'r fath yn golygu bod pobl leol yn cael mynediad i'r farchnad dai, bod prisiau tai yn adlewyrchu'r farchnad leol, bod datblygiadau tai yn adlewyrchu'r angen lleol a bod digon o dai ar rent."

"Mae safle Castell Caernarfon yn rhan o'n treftadaeth, ac am hynny fe wnaed ymdrech fawr dros y blynyddoedd i'w gynnal. Eto i gyd, gellid dadlau bod ein cymunedau Cymraeg yn cynrychioli etifeddiaeth genedlaethol lawer pwysicach, ac o ganlyniad mae angen i'r llywodraeth weithredu ar fyrder gan alw am Ddeddf Eiddo i Gymru." ✆

Beth yw Deddf Eiddo: tudalen 8

RADIO SIR GÂR MYND Â'R NEGES AT SEFYDLIADAU SY'N DIRMYGU'R IAITH

Wrth ddedfrydu pump aelod o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg i ryddhad amodol am 12 mis am greu difrod troseddol yn Radio Carmarthenshire fis Gorffennaf diwethaf, dywedodd cadeirydd ynadon Hwlffordd, "yr ydym yn edmygu eich ymroddiad i'r iaith ond dylasech fod wedi protestio y tu allan i'r adeilad."

Ymateb Heledd Gwyndaf, is-gadeirydd y Gymdeithas oedd, "pe bai Cymdeithas yr Iaith yn aros y tu fâs i sefydliadau sy'n dirmygu'r iaith Gymraeg ni fyddai neb yn cymryd sylw. Rhaid mynd â'r neges i mewn atynt."

Fe'u cafwyd yn euog o greu difrod gwerth £1,700 i eiddo'r cwmni radio, ac oherwydd hyn gofynnwyd i'r pump diffynydd – Steffan Cravos, Heledd Gwyndaf, Angharad Blythe, Llinos Dafydd a Gwenno Teifi – dalu £50 o gostau llys a £150 yr un o iawndal, sef llai na hanner yr hyn y gofynnodd Radio Carmarthenshire amdano.

Yn ôl ymchwiliad gan y rhaglen deledu Y Byd ar Bedwar, 7% o'r siarad yn unig oedd trwy gyfrwng y Gymraeg, a dim ond pedair gân Gymraeg a glywyd (a 260 cân Saesneg) mewn diwrnod ar Radio Carmarthenshire.

Yn dilyn y rhaglen, fe ddanfonodd y Gymdeithas gŵyn swyddogol arall am y sefyllfa at Ofcom. Cred Cymdeithas yr Iaith yw y dylai radio lleol adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu — mae dros hanner poblogaeth Sir Gâr yn Gymry Cymraeg, felly dylai Radio Carmarthenshire hefyd felly ddarlledu 50% trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Ofcom wedi ymateb trwy ddatgan:

"Yn dilyn pryderon o'r newydd gan nifer o wrandawyr dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi penderfynu monitro ymhellach i weld a ydy'r orsaf yn parhau i gydymffurfio â gofynion ei haddewid."

Bydd y Gymdeithas yn parhau i ymgyrchu'n galed i sicrhau y bydd radio lleol yn Sir Gâr yn cyrraedd y nod hwn. ✆

CYMUNEDAU

DEDDF EIDDO AR DAITH

Cymdeithas yr Iaith yn mynd â'r alwad am Ddeddf Eiddo ar daith drwy Gymru

Rhwng y 4ydd a'r 11eg o Fehefin, bydd Cymdeithas yr Iaith yn mynd â'r alwad am Ddeddf Eiddo ar daith drwy Gymru.

Na, nid cerdded yw'r bwriad y tro hwn! Yn hytrach, er mwyn pwysleisio i ba raddau y mae'r argyfwng tai yn parhau i niweidio ein cymunedau, bydd criw o aelodau yn treulio wythnos yn cysgu'r nos ar strydoedd gwahanol drefi ledled y wlad.

Bydd y daith yn gyfle hefyd i ledaenu ymwybyddiaeth o'r angen am Ddeddf Eiddo.

Bydd y daith yn cychwyn tu allan i'r Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd ar brynhawn Sadwrn, Mehefin 4 – Sadwrn olaf Eisteddfod yr Urdd. Yna ymwelir â'r trefi canlynol:

Llandysul Sul, Mehefin 5
Aberystwyth Llun, Mehefin 6
Pwllheli Mawrth, Mehefin 7
Caernarfon Mercher, Mehefin 8
Rhuthun Iau, Mehefin 9
Bala Gwener, Mehefin 10

Y bwriad yw ymgynnull yn y trefi hyn am 5 yr hwyr ac aros yno tan 2 y prynhawn canlynol, cyn symud ymlaen i'r lleoliad nesaf.

Bydd yr wythnos o ymgyrchu dros Ddeddf Eiddo yn cyrraedd ei phenllanw gyda'r rali ar lan Llyn Celyn. O bosib, hanes boddi Cwm Celyn, ger y Bala, yw'r enghraifft enwocaf o gymuned leol Gymraeg yn colli'r hawl i reoli ei dyfodol ei hun. Erbyn heddiw, mae ein cymunedau yn cael eu bygwth gan rym o fath gwahanol – grym anweladwy'r farchnad dai. Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng tai, mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am Ddeddf Eiddo.

Dewch gyda ni!

Rali Tryweryn Deddf Eiddo

2pm – Sadwrn, Mehefin 11
Wrth y Capel Coffa ar lan Llyn Celyn

Siaradwyr – Elfyn Llwyd AS, Huw Lewis, a mwy

Colli Capel Celyn
Colli'n Cymunedau Cymraeg!

CYMUNEDAU

BETH YW DEDDF EIDDO?

Huw Lewis yn dadlau dros yr achos

Bu llawer o sôn yn ddiweddar am y problemau tai difrifol sydd yn peryglu dyfodol ein cymunedau a'r iaith Gymraeg. Gwelwyd bod:

- Prisiau tai yn codi ymhell allan o gyrraedd pobl leol
- Bod datblygiadau tai ddim yn adlewyrchu'r angen lleol
- A bod diffyg difrifol o dai ar rent i drigolion lleol.

Yn nhyb Cymdeithas yr Iaith, gwraidd yr argyfwng tai yw natur gystadleuol y farchnad dai, sy'n golygu bod pobl leol yn methu cael gafael ar dai ac eiddo yn eu cymunedau lleol. Credwn fod mynd i'r afael â'r argyfwng tai yn galw am elfen o reolaeth dros y farchnad dai – er enghraifft trwy gyfrwng Deddf Eiddo.

Bydd Deddf Eiddo yn datrys yr argyfwng tai...

...drwy roi'r hawl i bawb gael cartref ar rent teg yn eu cymuned, drwy roi'r cyfle cyntaf i bobl leol wrth werthu eiddo, a thrwy ddod â'r farchnad leol yn raddol yn ôl o fewn cyrraedd pobl leol, fel na fydd perchnogion presennol ar eu colled. Bydd hyn yn galluogi pobl leol i brynu neu rentu ffermydd a busnesau bach yn ogystal â thai.

Bydd Deddf Eiddo yn diogelu cymunedau Cymru a'r Gymraeg...

...drwy alluogi pobl leol i gael y tai sy'n bod eisoes a'u hadnewyddu a'u haddasu os bydd angen, peidio â chaniatáu codi tai newydd oni bai fod angen lleol a dim tai addas yno'n barod, a pheidio â chaniatáu cynlluniau niweidiol – gan gynnwys y rheini sydd wedi'u pasio'n barod.

Bydd Deddf Eiddo yn diogelu'r amgylchedd...

...trwy reoli pethau fel glo brig, chwareli a datblygiadau twristiaeth mawr yn ogystal â thai diangen, ac felly'n gam pwysig iawn tuag at ddiogelu amgylchedd naturiol Cymru.

Mae Deddf Eiddo yn gwbwl ymarferol...

Dyw hi ddim yn galw am newid y system economaidd – dim ond cael mesur o reolaeth ar un rhan o'r economi, fel sydd wedi digwydd ers blynyddoedd mewn llefydd megis Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw.

Mae pob rhan o'r Ddeddf Eiddo â chynsail yng nghyfraith neu bolisïau tai a chynllunio Prydain

Fydd perchnogion tai ddim ar eu colled, gan na fydd rhaid i neb werthu am bris is na'i fuddsoddiad neu'i forgais. Fydd prisiau tai ddim yn disgyn yn is na phris y farchnad, ond yn aros yn sefydlog wrth i incwm lleol

CYMUNEDAU

ddal i fyny, ac felly'n raddol fe ddaw mwy a mwy o bobl leol i allu fforddio prynu unwaith eto.

Mae Deddf Eiddo yn berthnasol i bob rhan o Gymru...

...dim ond trwy Ddeddf Eiddo y bydd modd amddiffyn ein cymunedau rhag cael eu hecsbloetio gan y drefn gynllunio, a sicrhau hawl bobl leol i gael cartrefi yn lleol.

Ers rhai misoedd, bu aelodau o'r Gymdeithas wrthi yn ail-edrych ar bolisi Deddf Eiddo'r mudiad, gan roi ystyriaeth i ddatblygiadau diweddar yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o Brydain ac Ewrop. Bellach, mae'r ddogfen wedi ei danfon allan at lu o fudiadau, sefydliadau ac unigolion am gyfnod o ymgynghori. Bydd yr ymgynghori hwn yn dod i ben ar ddiwedd mis Gorffennaf. Os ydych yn dymuno derbyn copi o'r ddogfen ymgynghorol hon, e-bostiwch huw@cymdeithas.com neu ffoniwch y brif swyddfa ar 01970 624501.

Lobi Deddf Eiddo
12.30
Mercher, 6 Gorffennaf
Y Cynulliad Cenedlaethol
Bae Caerdydd

Ar ddechrau Gorffennaf, bydd aelodau Cymdeithas yr Iaith yn mynd â'r alwad dros Ddeddf Eiddo at Aelodau'r Cynulliad. Mewn cyfarfod ffurfiol a drefnir yn un o ystafelloedd pwyllgor y Cynulliad, bydd cyfle i gyflwyno ein dadleuon ac ymateb i gwestiynau'r gwleidyddion.

Beth am gynorthwyo gyda'r trefniadau? Cysylltwch gyda'ch Aelod Cynulliad lleol gan ofyn iddynt i wneud ymdrech i fod yn bresennol yn y cyfarfod lobio ar Orffennaf 6. Am fwy o fanylion e-bostiwch huw@cymdeithas.com neu ffoniwch y brif swyddfa ar 01970 624501.

BRWYDR YR IAITH
PENNOD I - Y DAITH AM DDEUDDF IAITH
Mae Stelfan Cravos, Catrin Dafydd a Hedd Gwynfor mewn gwisg ffansi yn trafaelio i'r Cynulliad i gyfarfod Alun Pugh...
Nid oren mo hwnnw! Lleng oled!
Ambosib!
Aah! Polydryn tractor!
Polydryn atynnu y lembo.

Ymerawdwr John Walter Jones... mae lleng Cymdeithas yr Iaith wedi glanio yn Awyrendy B.

Dewch a nhw i mi!
Darth Pugh!

Ni eisiau Deddf Iaith Newydd nawr, fydd yn sicrhau gwasanaeth Cymraeg gan y sector breifat, a rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg!

Tyrd 'mlaen Meirion! Mae defnydd i Fwrdd yr Iaith. Dewch draw i'r Ochor Olau!

Mae nhw'n iawn! Mae angen Deddf Iaith Newydd!

Tydi pŵer Bwrdd yr Iaith ddim yn cymharu â phŵer Darth Pugh! Does dim angen adolygu'r ddeddfwriaeth!

CROESAIR



Ar Draws

3 Cadeirydd newydd Cymdeithas yr Iaith
7 Y gwenidog dros ddiwylliant a'r iaith Gymraeg, sy'n dadlau yn erbyn deddf iaith newydd
8 Cymuned o flogiau Cymraeg
9 AS Plaid Cymru hynod o dal!
11 Rhaglen ffuglen wyddonol boblogaidd gafodd ei ffilmio yng Nghaerdydd
12 Siaradwr gwadd y Cyf Cyff 2005

I Lawr

1 Tafod pa fath o greadur yw hi?
2 Tu allan i ba adeilad mae'r taith Deddf Eiddo yn cychwyn ar Sadwrn olaf Eisteddfod yr Urdd?
4 Enillwyr y Chwe Gwlad 2005
5 Grwp pwyso sy'n hoff o fwganod brain!
6 Bydd o'n chwarae gig egsglwsif i'r Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol!
10 Ble mae'r Pictiwrs?

STATWS

DYFARNYDD DIDDANNEDD NEU **DEDDF IAITH NEWYDD?**

Catrin Dafydd yn ymchwilio...

Diffygion y Dyfarnydd

Be' well ar ddydd Mercher oer a gwyntog na mynd i ymweld ag Alun Pugh? Aeth chwe chymeriad amheus (Iwan S, Steffan Craf, Huw Lewis, Lois Barrar, Lowri Larsen a Chatrin D) am dro i'r amgueddfa er mwyn bod yn rhan o seremoni rwysgfawr a llawn emosiwn. Seremoni cyflwyno Deddf Iaith 1993 i hanes. Seremoni y bu angen dybryd amdani ers blynyddoedd. Ar ôl mynd â'r ddeddf ar ffurf baner (a baner ysblennydd oedd hi hefyd) at ddrysau'r amgueddfa dyma adael ar frys (mewn un car coch) a throi'n golygon i gyfeiriad y Cynulliad. Diolch yn fawr i'r cadeirydd am lywio'r gyrrwr twp. A dyma ddechrau'r hanes. Sut oedd Alun Pugh yn mynd i ymateb yn dilyn y ffaith fod Meri Huws wedi dweud fod angen trafodaeth ar gynnwys Deddf Iaith Newydd ac nid a oedd angen deddf ai peidio?

Alun Pugh vs Meri Huws

Prif amcanion y cyfarfod oedd darganfod a fyddai swyddfa'r dyfarnydd yn gyfle i ehangu ar bwerau'r Cynulliad, yn gyfle i gyflwyno mesur iaith newydd bron i ddegawd yn union wedi Deddf Iaith 1993. Nid yw'r Gymdeithas ar ei phen ei hun yn galw am hyn mwyach. Mae Cymdeithas yr Iaith ynghyd â degau o gyrff yng Nghymru o'r farn mai dyma'r unig gyfle a gawn

Cyflwyno Deddf Iaith 1993 i'r Amgueddfa Genedlaethol.

STATWS

ni am sbel i ehangu ein hawliau ni i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Daeth hi'n eithaf amlwg yn weddol gynnar yn y cyfarfod mai unig swyddogaeth y dyfarnydd, yn ôl Alun Pugh, fyddai twtio ychydig ar y drefn bresennol a delio â'r broses o ymgorffori Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn y Cynulliad.

Doedd y cyfarfod ddim yn mynd i fod yn un mor gadarnhaol ag yr oedd ambell un wedi disgwyl felly. Roedd Steffan, Huw a fi yn bwriadu holi Alun Pugh am nifer o wahanol agweddau ar waith y Dyfarnydd Iaith. Rhoddwyd adroddiad iddo o'r gynhadledd ar Ddeddf Iaith gynhaliwyd ar 12 Mawrth. Soniwyd hefyd fod nifer o wahanol gyrff a mudiadau bellach wedi penderfynu rhoi'r drafodaeth am Ddeddf Iaith ar flaen eu hagenda.

Pwysleisiwyd hefyd fod cadeirydd a phrif weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi datgan mai trafodaeth am gynnwys Ddeddf Iaith newydd sydd ei hangen bellach. Nid oedd Alun Pugh o'r farn fod angen unrhyw drafodaeth ar y mater hwn. Heb i neb ei annog, dechreuodd Alun Pugh sôn na fyddai swyddfa'r dyfarnydd yn ddim byd tebyg i rôl y Comisiynydd Plant na Chomisiynydd yr Henoed. Ni fydd y dyfarnydd yn meddu ar unrhyw bwerau i ddirwyo sefydliadau nad oeddent yn cydymffurfio â chynlluniau a rheolau iaith. Mewn geiriau eraill, dyfarnydd diddannedd fyddai. Dyfarnydd na fyddai'n cyflawni dim mwy na rôl ddi-ysbrydoliaeth a gwamal Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ychwanegodd un ymchwilydd mai dim ond drwy frwydro am galonnau'r Cymry y byddai'r Gymraeg yn ffynnu ac y byddai unrhyw ymgais i orfodi'r Gymraeg ar ffurf deddf neu ar ffurf dirwy gan y Dyfarnydd Iaith, yn milwrio yn erbyn y Gymraeg.

Ar ben hyn, i'r rheiny ohonoch chi sydd am wybod manylion amserlen unrhyw drafodaethau am y dyfarnydd a'i rôl, bydd yn rhaid i chi aros am ychydig am nad oes yna amserlen yn bodoli ar hyn o bryd.

Y Bwrdd yn Ystyfnigo

Yna, ar Ebrill 28ain gwelwyd newyddion diddorol yn y cylchgrawn Golwg. Ar ôl clywed canlyniad cyfarfod y tri o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg gydag Alun Pugh, roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, o'r diwedd, wedi datgan fod angen "adolygiad llwyr" o rôl y dyfarnydd. Ar ben hyn datgelwyd fod yna gydsynio o fewn y Bwrdd ei bod hi'n hen bryd bellach adolygu'r Ddeddf Iaith bresennol. Deddf sydd mewn grym ers 12 mlynedd. Roedd Bwrdd yr Iaith hefyd o'r farn fod angen i'r dyfarnydd feddu ar bwerau i ddirwyo cwmnïau pe baent yn dewis peidio â chydymffurfio â rheolau dwyieithrwydd. Os nad yw hyn yn dangos gwahaniaeth barn rhwng y llywodraeth a Bwrdd yr Iaith, dwn i ddim be' sydd!

Felly dyma ni, yn wynebu dadl ffyrnig rhwng Meri Huws a'r Bwrdd ac Alun Pugh a'r llywodraeth Lafur yn y Cynulliad. Gyda degau o sefydliadau a mentrau iaith mor anhapus â'r drefn bresennol o geisio dwyn perswâd ar fusnesau a chyrff i weithredu'n ddwyieithog, does dim opsiwn cliriach na chael Deddf Iaith sy'n berthnasol i Gymru'r unfed ganrif ar hugain. Mae'n rhaid cael Deddf fydd yn diwallu anghenion y cyrff a'r mudiadau hyn. Mae'r farn yn glir ar draws sbectrwm eang iawn, gyda mudiadau a chyrff yn barod i ddatgan eu bod nhw o blaid Deddf Iaith Newydd. Tybed sut drafodaethau a welwn ni rhwng Meri Huws ac Alun Pugh? Siawns mai dyma'r unig gyfle a gawn ni am ddegawd arall?

Deddf Iaith — Dyma'r Cyfle!

Ymunwch â ni yn ystod Eisteddfod yr Urdd yn yr Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd, am 2 o'r gloch ar 1 Mehefin.

Cyfle i drafod rôl y Dyfarnydd Iaith newydd ac i graffu ar syniadau Alun Pugh am yr hyn y dylai'r dyfarnydd ei gyflawni.

Croeso mawr i bawb!

CYF CYFF

CYFARFOD CYFFREDINOL **YMGYRCHOEDD AC YSBRYDOLIAETH**

Lowri Larsen sy'n edrych yn ôl

Cynigion

Pasiwyd saith cynnig ar fore'r cyfarfod. Roedd a wnelo'r cyntaf â'r bygythiad difrifol i ddyfodol degau o ysgolion pentrefol trwy Gymru. Galwyd ar Jane Davidson i gyfarfod dirprwyaeth o'r Gymdeithas ac aelodau o'r cymunedau sy'n wynebu colli eu hysgolion. Nid yw hi erioed wedi gwneud hyn o'r blaen ac wedi gwrthod bob apêl.

Galwyd ar Lywodraeth y Cynulliad i sefydlu trefn cyllido addysg uwch yng Nghymru. Nododd y cyfarfod y byddai Coleg Ffederal Cymraeg yn cynnig addysg berthnasol a fyddai'n cryfhau ein cymunedau ac yn cynnig profiadau addysgol gwerthfawr.

Nodwyd bod y Cynulliad yn bwriadu cyflwyno mesur 'Dyfarniad Iaith' i gael ei basio gan San Steffan fel rhan o'r broses o ddileu Bwrdd Yr Iaith Gymraeg, a golygai hyn y bydd rhyw ffurf ar Ddeddf Iaith Newydd yn cael ei chyflwyno yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Penderfynwyd y dylai'r Grwp Deddf Iaith drefnu cyfres o brotestiadau yn ogystal â phroses ymgynghori, a fyddai'n arwain at gyfres o alwadau penodol, y gellid eu cyflwyno fel rhan o broses i gryfhau'r ddeddfwriaeth newydd.

Cydnabu'r cyfarfod bod y grwp Cymunedau Rhydd wedi adolygu polisi Deddf Iaith y Gymdeithas, ac mai'r cam nesaf oedd trefnu ymgyrch gyhoeddusrwydd er mwyn tynnu sylw at eu cynigion. Penderfynwyd hefyd ei bod yn hollbwysig bod celloedd rhanbarthol yn cefnogi gwaith y Grwp drwy gynorthwyo gyda threfniadau taith Deddf Eiddo dechrau Mehefin.

Nodwyd bod Cyngor Ceredigion wedi penodi Swyddog Ieuenctid di-Gymraeg a'u bod wedi darparu dogfennau tystiolaeth uniaith Saesneg fel rhan o ymchwiliad cyhoeddus y Cynulliad i ddatblygu unedol. Galwodd y cyfarfod ar Gyngor Ceredigion i fabwysiadau rhaglen a fyddai'n sefydlu'r iaith Gymraeg fel iaith weinyddol fewnol y sefydliad, ac i gynnal archwiliad ar sgiliau iaith eu staff a pharatoi amserlen ar gyfer hyn.

Sylwyd nad yw Radio Sir Gâr yn gwasanaethu'n llawn anghenion diwylliannol ac ieithyddol yr ardaloedd y mae'n eu gwasanaethu. Galwodd y cyfarfod am gyfundrefn annibynnol i Gymru y bydd iddi fframwaith a dimensiwn Cymreig.

Nododd y cyfarfod fod Cyllid y Wlad bellach yn annog busnesau i lenwi eu ffurflen dreth flynyddol dros y we er mwyn hwyluso gwaith papur cwmnïau bach, ond nad yw'r gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg. Mi fydd canlyniadau ariannol sylweddol i fusnesau sydd yn gweithredu trwy'r Gymraeg, gan y byddant yn colli tua £1000 mewn gostyngiadau o hyn hyd 2009 am beidio cyflawni'r gwaith ar lein. Galwyd ar y Grwp Ymgyrchu Deddf Iaith i drefnu cyfres o weithredoedd uniongyrchol er mwyn tynnu sylw at y broblem ac er mwyn dwyn pwysau ar Gyllid y Wlad i unioni'r cam.

Addysg

Rhoddwyd adroddiad blynyddol y grwp ymgyrchu addysg gan Ffred Ffransis. Yn fras dywedodd Ffred fod y Gymdeithas wedi bod yn dda am adnabod anghenion ym maes addysg ond ddim cystal am ddelio â nhw'n drylwyr. Soniodd ei bod yn anodd dod o hyd i griw bach o aelodau ymroddedig. Mae nifer o'r aelodau sydd â diddordeb yn y maes naill ai'n gweithio o fewn y gyfundrefn neu'n fyfyrwyr – mae angen aelodau sydd yn rhydd i lefaru.

Dyfodol ysgolion pentrefol Cymraeg oedd y maes y rhoddwyd y sylw pennaf iddo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ffocws y Gymdeithas oedd ar ddatblygu'r ysgolion yn Unedau Addysg a Datblygu Cymunedol. Cynhaliwyd rali yng Nghaerfyrddin

gyda channoedd yn bresennol, sefydlwyd fforwm cynrychiadol a daliwyd ati i bwyso ar y cyngor.

Mae Colegau Addysg Bellach wedi cael llonydd gennym ers ymgyrch ddiwedd y nawdegau. Mae'r ymgyrchoedd newydd yn mynnu y dylai llythrennedd yn y ddwy iaith fod yn nod sylfaenol i bob disgybl. Penderfynwyd yr un pryd y dylid sefydlu Gwasanaethau Gyrfaoedd i ddisgyblion a myfyrwyr oherwydd bod prinder swyddogion sy'n siarad Cymraeg mewn llawer o swyddi allweddol a hyn yn effeithio ar yr iaith.

Deddf Iaith

Cyflwynodd Rhys Llwyd adroddiad y grwp Deddf Iaith. Dywedodd Rhys fod cyhoeddiad Rhodri Morgan fod quango Bwrdd Yr Iaith yn mynd i gael ei ddiddymu yn agor cyfle i'r ymgyrch dros Ddeddf Iaith. Ar yr ochr lobio mae llythyrau cyson wedi bod yn cael eu hanfon at gwmnïau a gwasanaethau, ond y brif ymgyrch oedd y fforwm cenedlaethol dros Ddeddf Iaith Newydd. Penderfynodd y Bwrdd anfon dau o gynrychiolwyr, sef Meirion Prys Jones a Meri Huws, i'r fforwm.

Ar yr ochr ymgyrchu, cynhaliwyd protest ym mhencadlys Orange ym Mryste ac arestiwyd rhai o'r aelodau. Rhoddwyd sylw i hyn ym mhapurau ardal Bryste ac ar wefan Brydeinig y BBC yn ogystal â'r cyfryngau Cymraeg a Chymreig. Prif weithgarwch y flwyddyn ddiwethaf oedd y sticeri "Direct Action Is Back" a oedd yn fawr ar dudalen flaen y Wales On Sunday ar 31 Hydref 2004. Targedwyd gwahanol drefi drwy'r gaeaf hyd at y Fforwm Genedlaethol ym mis Mawrth, gan gynnwys Fflint, Caernarfon, Caerdydd, Aberystwyth, Bangor, Rhydaman ac Aberteifi.

Cymunedau Rhydd

Bwriad y grwp Cymunedau Rhydd flwyddyn yn ôl oedd canolbwyntio ar y ddwy alwad am Gynnydd yng nghyllid y Cynllun Cymorth Prynu a chynnydd yn y ddarpariaeth o dai a rhent. Er mwyn tynnu sylw at y galwadau hyn cynhaliwyd protestiadau yn y swyddfeydd yng Nghaernarfon, Caerfyrddin, a Llandrillo-yn-Rhos, ym misoedd Awst a Medi. Pan gyhoeddwyd y gyllideb ym mis Tachwedd nid oedd unrhyw arwydd bod y Cynulliad am gymryd camau i leddfu rywfaint ar yr argyfwng tai.

Adolygwyd y ddogfen Deddf Eiddo; cadwyd y chwe phrif bwynt oedd yn y ddogfen wreiddiol – Asesu'r Angen Lleol, Tai ac Eiddo i'w Rhentu, Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf, Blaenoriaeth i Bobl Leol, Cynllunio i'r Gymuned ac Ail Asesu Caniatâd Cynllunio. Mae'r grwp yn paratoi atodiad i'r ddogfen gyda gwybodaeth ystadegol enghreifftiol. Yn y misoedd nesaf bydd y ddogfen ddiwygiedig yn cael ei chyfieithu i'r Saesneg.

Cynhelir lobi yn y Cynulliad yng nghanol mis Mai er mwyn denu cyhoeddusrwydd. Dros y flwyddyn nesaf bydd angen adeiladu ar waith y grwp polisi drwy ymroi i alw am ddeddf eiddo. Dadl y grwp yw bod y sefyllfa mor ddifrifol nes bod angen elfen o reolaeth dros y farchnad tai ac eiddo er mwyn sicrhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw. Dros y misoedd nesaf bydd y grwp yn chwilio am ddulliau dyfeisgar a newydd o ymgyrchu. Dechreuwyd gyda phrotest yng nghastell Caernarfon ac fe fydd y gwaith yn parhau gyda' r daith Deddf Eiddo ym mis Mehefin.

Ray Davies

Mynychodd Ray Davies, cynghorydd Llafur ar Gyngor Caerffili, y cyfarfod i siarad am ei brofiadau yn cynorthwyo ym Mhalestina ac yn Irac, ac erchylltra effaith rhyfel y gwelodd yno. Cofiaf yn arbennig iddo sôn am ei brofiad o fynd i ymweld ag ysbyty yn Irac. Wrth sefyll tu allan i'r ysbyty gwelodd mam a'i phlentyn yn marw oherwydd y rhyfel. Ymosododd hi arno a'i bod hi'n ei gysylltu â'r milwyr Prydeinig yn Irac. Soniodd hefyd fel yr oedd y lluniau'r plant bach i gyd yn cynnwys trais, gynnau, gwaed a bomiau. Bu i fwled grafu'i ben yn Palesteina. Diweddodd ei sgwrs ar nodyn o obaith, gan drafod gymaint o ddaioni sydd yn y byd. ✆

STEDDFOD

MAE'R AMSER WEDI DOD **EISTEDDFOD 2005**

Aled Elwyn yn edrych ymlaen at hwyl yr haf

Unwaith eto eleni, mae'r Gymdeithas yn trefnu wythnos lawn o gigiau yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ddechrau mis Awst gyda'r pwyllgor adloniant wedi bod wrthi yn barod ers misoedd yn rhoi'r trefniadau yn eu lle.

Cyhoeddwyd eisoes y bydd dwy ganolfan eto eleni, gyda Chlwb Amser ym Mangor a Cofi Roc yng Nghaernarfon yn lleoliadau i'r gigiau. Dyna ddwy o'r canolfannau gorau yn yr ardal a bydd digwyddiadau yn Amser o'r nos Sadwrn cyntaf tan y nos Sadwrn olaf ac yn Cofi Roc o nos Sul i nos Wener. Rhai o'r artistiaid sydd eisoes wedi cadarnhau ydy Steve Eaves, Meic Stevens, Anweledig, Ashokhan, Drymbago gyda llawer mwy o rai cyffrous ar eu ffordd. Ond y sgwp fwyaf ohonynt oll mae'n siwr yw'r ffaith y bydd Gruff Rhys yn perfformio gig ecsgliwsif i'r Gymdeithas yn Amser. Meddai Owain Schiavone, Swyddog Adloniant y Gymdeithas:

"Rydym yn falch iawn o allu cyhoeddi ein bod yn mynd i fod yn defnyddio dwy ganolfan wych yn ardal yr Eisteddfod unwaith eto eleni – mae Amser a Cofi Roc yn ddwy o'r canolfannau gigs gorau yng Ngogledd Cymru. Ar ben hyn rydym wrth ein boddau fod Gruff Rhys yn mynd i fod yn perfformio i ni yn ystod yr wythnos, roedd y gig a wnaeth i'r Gymdeithas yn Solfach adeg Eisteddfod Ty Ddewi yn ddigwyddiad gwych a dwi'n gwybod bydd y gig eleni yn arbennig iawn hefyd.…Allwn ni ddim disgwyl!"

Ond bydd mwy ymlaen na gigiau yn unig. Yn ystod y prynhawniau bydd amrywiaeth o ddigwyddiadau ymlaen yn Amser gan gynnwys dwy sesiwn wedi eu trefnu gan Pictiwrs.com, cwis tafarn a llawer mwy. Cafodd gwefan Pictiwrs ei sefydlu y llynedd mewn ymateb i ddiffyg ysgrifennu am ffilm yn y Gymraeg. Ers hynny, mae'r wefan wedi mynd o nerth i nerth, gan gynnig adolygiadau a newyddion am ffilmiau Cymraeg, Cymreig a rhyngwladol trwy gyfrwng y Gymraeg. Penderfynwyd dechrau trefnu nosweithiau 'Pictiwrs Yn Y Pyb' eleni er mwyn rhoi llwyfan i ffilmiau Cymraeg eu hiaith, ac mae'r criw newydd sicrhau nawdd gan Sgrin, Asiantaeth Ffilm a Theledu Cymru, er mwyn cynnal nosweithiau am flwyddyn gyfan.

Mae'r Gymdeithas yn falch iawn o roi'r cyfle i fwy o bobl ifanc Cymru brofi diwylliant gweledol Cymraeg a Chymreig ac yn edrych ymlaen yn fawr at gydweithredu efo Pictiwrs.com.

Felly, mae'n ymddangos y cawn ni wythnos brysur arall eleni, gyda digon o ddewis ar gael i bawb. Efallai fod trefnwyr yr Eisteddfod am wneud beth bynnag a allant i atal y Gymdeithas rhag cynnal gigiau llwyddiannus sy'n codi cywilydd ar eu darpariaeth eu hunain, ond rydym yn hyderus y bydd ieuenctid Cymru yn gwybod ble mae gigiau gorau wythnos yr Eisteddfod i'w cael, ac yn Cofi Roc ac Amser bydd hynny!

BRWYDR Y BANDIAU!

Mae Brwydr y Bandiau yn ôl eleni, gyda'r cystadleuaeth mwyaf erioed! Bydd pump o ragbrofion mewn gigs ar draws Cymru, ar y dyddiadau canlynol... mwy o fanylion i ddod.

Nos Wener 17 Mehefin
Clwb Rygbi, Blaenau Ffestiniog

Nos Wener 24 Mehefin
Clwb Medi, Caernarfon
Clwb y Cwins, Caerfyrddin

Nos Sadwrn 25 Mehefin
Clwb y Rheilffordd, Bangor
Clwb Rygbi, Dinbych

gigs steddfod 2005

amser:bangor
sadwrn–sadwrn

Gruff Rhys
Meic Stevens
Anweledig
Meinir Gwilym
Drymbago
Kentucky AFC
Frizbee
Maharishi
Ashokan
Mattoidz
Sleifar a'r Teulu
Winabego
Fflur Dafydd a'r Barf
Cofi Bach a Tew Shady
Bechdan Jam
Eryr
Java
Dan Lloyd a Mr Pinc
Swci Boscowen
Gilespi
MC Saizmundo
Bootnic
Bob
Y Llofruddion
Kenavo
Rasputin

Amser ydy Clwb Nos Undeb y Myfyrwyr, Bangor. Mae'r Clwb yn dal hyd at 1,000 o bobl ac yn adnabyddus fel un o ganolfannau gigs gorau gogledd Cymru. Mae'r clwb yn leoliad berffaith ar gyfer wythnos y Steddfod – mae'r diodydd yn rhatach nac unrhywle arall yn yr ardal a maent yn darparu bwyd da a rhad. Mae hefyd yn leoliad gwych i gigs y Gymdeithas gan ei fod reit yng nghanol Bangor – dim ond tafliad carreg i ffwrdd o holl dafarndai a bwrlwm bywyd nos y ddinas. Yn ystod yr wythnos bydd arlwy o fandiau ac artistiaid gorau Cymru yn perfformio yn Amser, yn cynnwys Meic Stevens, Anweledig ac wrth gwrs Gruff Rhys!

Bob Delyn a'r Ebillion
Tecwyn Ifan
Mim Twm Llai
Celt
Geraint Løvgreen
Alun Tan Lan
Elin Fflur
Nar
Quidest
Heather Jones
Brigyn
Vates
Y Cyffro
Gwilym Morus
Gwyneth Glyn
Vanta
Pala
'King Biwt
Y Moddion

Mae Cofi Roc yn prysur ddatblygu i fod yn un o ganolfannau gigs gorau Gwynedd. Mae wedi ei leoli ar 'Y Maes' yng Nghaernarfon, reit yng nhanol holl fwrlwm y dref hanesyddol enwog. Yn ystod y flwyddyn, mae Cofi Roc yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob math o weithgareddau. Mae hefyd yn far coffi a bwyty. Yn ystod y Steddfod bydd nifer o hoelion wyth y sin gerddoriaeth Gymraeg yn chwarae yn y clwb yn cynnwys Bob Delyn a'r Ebillion, Tecwyn Ifan, Steve Eaves, a Mim Twm Llai. Byddan nhw'n cael eu cefnogi gan nifer o'r talentau ifanc gorau sydd gan Gymru i'w gynnig.

cofi roc:c'fon
sul–gwener

LLYTHYRAU

Syr: Cefais ffrae mewn siop ym Mangor ddoe – Siop Paperway yng Nghanolfan Deiniol.

Roeddwn yn chwilio am sticeri gydag ymadroddion fel Penblwydd Hapus neu Nadolig Llawen sydd yn dod mewn aur neu arian, y gellwch eu glynu ar gerdyn o'ch gwaith eich hunan. Gofynnais a oedd rhai Cymraeg ganddynt.

Dywedodd un o'r ddwy ddynes oedd yn gweini: "No way will the owner sell Welsh things, he is English."

Gofynnais a oedd siop gan y perchennog yn Ffrainc yn gwerthu sticeri Saesneg. Dywedodd y llall: "Don't be racist."

Meddai'r rheolwraig hefyd: "He pays his taxes so he can do as he likes."

Oes rhywbeth y gellir ei wneud i roi gwybod am hyn i'r Cymry sydd yn byw yn yr ardal yma fel na fyddant yn cefnogi'r siop?

Siân Davies

Oes gennych chi storïau tebyg am sefydliadau sydd ag agwedd amharchus tuag at y Gymraeg? Anfonwch y manylion i'r Tafod er mwyn i ni roi gwybod i siaradwyr Cymraeg eraill.



Cymru ar Hyd a Lled y Byd
Fflag Cymru yn addurno cwch ar y Nile yn Luxor, gyda Dyffryn y Brenhinoedd yn y cefndir! Wedi gweld darn bach o adref mewn lle anhebygol arall?

CRYSAU CHWYLDROADOL!

YMLAELODWCH

Ffurflen Ymaelodi

Enw

_____

Cyfeiriad

_____

_____

_____

Côd post

_____

Rhif ffôn

_____

Cyfeiriad e-bost

_____

Dyddiad geni

_____

Mae gen i ddiddordeb yn:

❑ Yr ymgyrch dros statws i'r Gymraeg
❑ Yr ymgyrch dros Gymunedau Rhydd
❑ Yr ymgyrch addysg

❑ Rwy wedi bod yn aelod o'r blaen

❑ Myfyriwr Ysgol, Coleg Ged **£3**
Enw eich ysgol

_____

❑ Myfyriwr Coleg **£6**
Cyfeiriad yn ystod y tymor

_____

_____

_____

❑ Gwaith Llawn Amser **£12**
Ym mha faes ydych chi'n gweithio?

_____

❑ Di-gyflog **£6**

❑ Pensiynwr **£6**

❑ Aelodaeth teulu (plant dan 16) **£24**
Nifer oedolion _____ a phlant _____

❑ Hoffwn gyfrannu yn unig
❑ Nid wyf am dderbyn gobebiaeth

Manylion Banc

At sylw'r Rheolwr:
Enw'r banc

_____

Cyfeiriad y banc

_____

_____

_____

Enw'r cyfrif

_____

Rhif y cyfrif

_____

Yr wyf yn eich awdurdodi i dalu i gyfrif **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Rhif 81072102,** Banc HSBC, 24 Sgwâr y Castell, Caernarfon, **40-16-02**

Ar y cyntaf o fis _____,

blwyddyn _____, ac wedi hynny

bob mis y swm o £ _____.

Arwyddwyd

_____

Dyddiad

_____

URDD 2005

LLUN 30 MAI
PROTEST: CADWN EIN HYSGOLION
Uned Llywodraeth y Cynulliad
3.30pm

MERCHER 1 MEHEFIN
DEDDF IAITH – DYMA'R CYFLE
Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd
3.30pm

SADWRN 4 MEHEFIN
DEDDF EIDDO – DECHRAU'R TAITH
Tu allan i'r Cynulliad Cenedlaethol,
Bae Caerdydd, 2pm